



YSGOL GYMRAEG ABERYSTWYTH



• Cymreictod • Parchu ein gilydd • Gwneud ein gorau glas •

ysgolgybraeg.cymru

EISTEDDFOD YSGOL

Eisteddfod Ysgol

Llongyfarchiadau i'r chwe disgybl Blwyddyn 6 sydd wedi eu hethol yn gapeiniaid y tai yn yr Eisteddfod Ysgol eleni:

Tŷ Arthur	Elan a Seth
Tŷ Caradog	Eila ac Iolo
Tŷ Dewi	Beca ac Aled

Beth sy'n digwydd a phryd?

Dydd Llun 9^{ed} o Chwefror

Rhagbrofion Canu, Llefaru ac Offerynnol pawb

Dydd Iau 12^{ed} o Chwefror

Awr o Eisteddfod ar gyfer pawb heblaw Meithrin (rhwng 2 a 3 o'r gloch)

Dydd Gwener 13^{eg} o Chwefror

8:45 EISTEDDFOD YSGOL Pawb (plant Meithrin prynhawn i fynyhu yn y bore)

> Bydd y cystadlaethau llên a chelf yn cael eu beirniadu yn ystod yr wythnos hefyd, gyda chyhoeddiadau'r canlyniadau ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

> Yn y rhagbrofion canu a llefaru bydd y beirniaid yn dewis yr un gorau o bob tŷ i fod ar y llwyfan o'r Meithrin i Flwyddyn 2, a'r tri gorau o unrhyw dŷ i fod ar y llwyfan o flynyddoedd 3 – 6. Bydd tri wrth gefn rhag ofn fydd salwch ar y diwrnod.

Hoffwn eich hatgoffa hefyd y **bydd angen pecyn bwyd i ginio ar eich plentyn ar ddiwrnod yr Eisteddfod Ysgol – Dydd Gwener 13eg Chwefror**

School Eisteddfod

Congratulations to the six pupils from Year 6 who have been voted house captains for this year's School Eisteddfod:

Tŷ Arthur	Elan and Seth
Tŷ Caradog	Eila and Iolo
Tŷ Dewi	Beca and Aled

What's happening and when?

Monday 9th February

Singing, reciting and instrumental prelims for everyone

Thursday 12th February

An hour of Eisteddfod for everyone except Meithrin (from 2-3pm)

Friday 13th February

8:45 SCHOOL EISTEDDFOD for Everyone (Afternoon Meithrin pupils to attend in the morning)

> The literature and art competitions will also be judged during the week, with the results announced on the day of the Eisteddfod.

> In the singing and reciting prelims the judges will choose one from each house to be on stage from Nursery to Year 2, and the best three from any house to be on stage from years 3 – 6. There will also be three in reserve in case of illness on the day.

*I would also like to inform you that **your child will need a packed lunch on the day of the School Eisteddfod. – Friday 13th February***



Arthur



Caradog




Dewi

Pont Teithio Llesol Plasrug

Cynhaliwyd cyfarfod Llywodraethwyr yr Ysgol Gymraeg yn ystod yr wythnos i drafod y cynigion ar gyfer pont llesol newydd.

Fel y gwyddoch, mae Opsiynau A, B a C yn cael eu hystyried. Mae llywodraethwyr yr ysgol o blaid Opsiwn A – sef yr opsiwn i gadw lleoliad y bont yn y man presennol. Rydym yn cefnogi opsiwn A oherwydd:

- Dyma'r llwybr byrraf ar gyfer ein disgyblion ieuengaf ni sy'n cerdded o Camau Bach a'r Cylch Meithrin amser cinio
- Dyma'r llwybr byrraf ar gyfer ein rhieni a'n disgyblion i gyrraedd y meysydd parcio tu hwnt i'r bont o'r ysgol
- Teimlwn mai dyma'r lleoliad a fydd yn annog cerddwyr a beicwyr orau, ac felly'n lleihau ar y nifer o draffig y tu allan i'r Ysgol Gymraeg
- Ry'n ni'n cefnogi Ysgol Plasrug a'i hawydd i gadw ei hardal natur – byddai opsiynau B a C yn amharu ar hyn.
- Credwn y byddai diogelwch personol defnyddwyr ar hyd pontydd opsiynau B a C yn bryder, gyda'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn uwch yno



Mae'r ymgynghoriad ynghylch pont newydd ar agor tan Chwefror 25^{ain} eleni. Ga i'ch hannog chi i rannu eich barn chi ynghylch yr opsiynau os gwelwch yn dda.

Gellir gweld rhagor o fanylion am y cynigion a'r digwyddiad ymgynghori hwn ar wefan y Cyngor:

 [Cynllun Pont Plasrug - Cyngor Sir Ceredigion](#)

Plasrug Active Travel Bridge

A meeting of the Ysgol Gymraeg Governors was held during the week to discuss the proposals for a new active travel bridge.

As you are aware, Options A, B and C are being considered. The school governors support Option A – that is, the option to keep the bridge in its current location. We support Option A because:

- *It is the shortest route for our youngest pupils who walk to and from Camau Bach and the Cylch Meithrin at lunchtime*
- *It is the shortest route for our parents and pupils to reach the car parks beyond the bridge from the school*
- *We feel this is the bridge that will best encourage pedestrians and cyclists, and therefore reduce the amount of traffic outside Ysgol Gymraeg*
- *We support Ysgol Plasrug and their desire to preserve their nature area – Options B and C would have a negative impact on this.*
- *We believe users' personal safety along options B and C is a cause for concern, with an increased risk of anti-social behaviour*

The consultation regarding the new bridge is open until 25th February this year. I would encourage you to share your own views on the proposed options, please.

Further details of the proposals and this consultation event can be viewed on the Council's website:

 [Plasrug Bridge Scheme - Ceredigion County Council](#)

FFAIR IAITH – Blynnyddoedd 5 a 6

Bydd disgyblion blynnyddoedd 5 a 6 yn mynychu Canolfan Hamdden Plasrug ar y 3ydd o Chwefror, rhwng 9:30 a 2:30yp. (Bydd y plant yn dychweld i'r ysgol i fwyta cinio ysgol)




Yn ystod y dydd, bydd disgyblion yn mynychu sesiynau byr **25 munud** ar draws amryw o orsafoedd, megis sesiwn *green screen* i greu bwletin tywydd, sesiwn ar greu Newyddion Ni gyda chyflwynydd y rhaglen; MabinogiOgi – sgwrs gydag un o'r actorion ac actio darn o sgript; Gwyddoniaeth – sesiwn gyda Heledd Roberts sef un o gyflwynwyr *Boom Bang*. Bydd y digwyddiad yn gorffen gyda **Sioe Stwnsh am 2yp**, gyda Cadi a Jed o *Stwnsh Sadwrn*.

LANGUAGE FAIR – Years 5 and 6

Pupils in Years 5 and 6 will attend Plasrug Leisure Centre on the 3rd of February, between 9:30am and 2:30pm. (The children will return to school to eat their school lunch)

*During the day, pupils will take part in short 25-minute sessions across a range of stations, such as a green screen session to create a weather bulletin, a session on creating Newyddion Ni with a presenter; MabinogiOgi – a talk with one of the actors and acting out part of a script; a science session with Heledd Roberts, one of the presenters of Boom Bang. The event will finish with **Sioe Stwnsh at 2:00pm**, featuring Cadi and Jed from Stwnsh Sadwrn.*



Paratoi at yr Estyniad newydd

Wrth inni baratoi at gychwyn adeiladu'r Estyniad newydd yn yr haf, yn anffodus mae angen torri pedair coeden yn ardal chwarae y Meithrin cyn i'r cyfnod nythu gychwyn i'r adar. Er ein bod yn torri pedair coeden, bydd deunaw o goed newydd yn cael eu plannu fel rhan o gynllun yr Estyniad. Bydd y coed yn cael eu torri yn ystod gwyliau hanner tymor.

Preparing for the new building extension

As we prepare to begin construction of the new Extension in the summer, unfortunately it is necessary to cut down four trees in the Nursery play area before the birds' nesting season begins. Although four trees will be removed, eighteen new trees will be planted as part of the Extension project. The trees will be cut down during the half-term holidays.



Ymarferion rygbi a pêl-droed

Sylwch ar y Calendr Hanner Tymor os gwelwch yn dda ar gyfer gwybodaeth yn ymwneud ag ymarferion ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion bl.3-6

Rugby and football training sessions

Please see the Half Term Calendar for information relating to after school training sessions for years 3-6 pupils



Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol. O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

📱 [Instagram](#) – Ysgol Gymraeg

📱 [Instagram](#) – C.Rh.A


Events and achievements

Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.

From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.

📱 [Instagram](#) – Ysgol Gymraeg

📱 [Instagram](#) – P.T.A



Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r [Calendr Hanner Tymor](#) ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

Half term Calendar

Here is the link to the [Half Term Calendar](#) for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.

Dyddiadau pwysig i ddod:

- Diwrnod Eisteddfod Ysgol : Chwefror 13^{eg}
- Diwrnod cau H.M.S : Mawrth 6^{ed}
- Eisteddfod Gylch : Mawrth 25^{ain}
- Eisteddfod Rhanbarth : Ebrill 18^{fed}

Upcoming important dates:

- School Eisteddfod : February 13th
- I.N.S.E.T school closure day : March 6th
- Area Eisteddfod : March 25th
- County Eisteddfod : April 18th

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.
If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.

Yn gywir,
Gareth L James
Pennaeth / Headteacher
30/01/2026
📧 www.ysgolgymlaeg.cymru





CYFARFOD CYMDEITHAS RHINI AC ATHRAWON

PARENT & TEACHERS ASSOCIATION MEETING

6:30YH/PM
10/02/26

YSGOL
GYMRAEG
ABERYSTWYTH

Does dim angen bod yn aelod o'r GRhA a fydd
dim disgwyliad i chi ymrwymo yn y dyfodol.
Mae croeso i bawb - cyfle i rannu syniadau am
ddigwyddiadau a thrafod sut mae arian yn cael
ei wario.



No need to be a member of the PTA or
to want to have any future commitment.
Everyone is welcome - an opportunity
to share ideas about future events and
to discuss how money can be spent.

Gweithgareddau ar gyfer hanner tymor:



- Mon 16th Feb - Multi-Sports Camp @ Plascrug LC
- Tue 17th Feb - NEW! Dodgeball Tournament @ Bow Street FC 3G
- Wed 18th Feb - 1-2-1 + Small Group Development sessions @ Bow Street FC 3G
- Thu 19th Feb - Soccer School @ Aberystwyth Town FC
- Thu 19th Feb - Goalkeeper Camp @ Aberystwyth Town FC
- Fri 20th Feb - Drop N' Shop Tournament Day @ Aberystwyth Town FC

[Book - BMO Coaching](#)